Better Communication CIC
supporting change

THE BALANCED SYSTEM®

# Dadansoddiad The Balanced System® o anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu a'r ddarpariaeth sydd ar gael i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc Cymru

Mae cynghorwyr lleferydd, iaith a chyfathrebu Llywodraeth Cymru wedi comisiynu adolygiad o anghenion a dadansoddiad o'r cymorth presennol ar gyfer anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu i blant a phobl ifanc ledled Cymru. Nod yr adolygiad yw:

- cefnogi dealltwriaeth o'r angen a'r ddarpariaeth bresennol yng Nghymru mewn perthynas â phob plentyn a pherson ifanc
- llywio darpariaeth yn y dyfodol ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu, gan ddarparu canlyniadau ymarferol i bob plentyn a pherson ifanc sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ac anghenion bwyta, yfed a llyncu ar draws holl feysydd gwasanaeth therapi iaith a lleferydd yng Nghymru, gan ystyried y gwaith integredig sy'n digwydd ar hyn o bryd ar draws y system gyfan (iechyd/addysg/y gymuned/asiantaethau gwirfoddol).

## Beth yw The Balanced System®[1]

Mae ymagwedd system gyfan The Balanced System® tuag at ddarpariaeth gwasanaethau yn cefnogi gwasanaethau i wneud y canlynol:

- deall **anghenion y boblogaeth** mewn ardal a **defnyddio data** i **gynllunio gwasanaethau'n rhagweithiol**
- darparu **canlyniadau ymarferol** i blant a phobl ifanc
- gwerthuso canlyniadau'n barhaus i gyflawni **effaith ar gyfer y plentyn, y person ifanc, a'u teulu**
- galluogi **mynediad haws a symlach** at gymorth i blant a'u teuluoedd
- darparu gwasanaethau yn y **man mwyaf perthnasol**
- datblygu darpariaeth **gyffredinol ac wedi'i thargedu** gref fel rhan o **gontinwwm o ddarpariaeth**, gan gynnwys cymorth **unigol neu arbenigol**
- hyrwyddo mynediad at y **wybodaeth a'r cymorth cywir**, sydd ar gael **ar yr adeg gywir**
- darparu mynediad at **gymorth arbenigol** yn ôl yr angen, **fel rhan o ymagwedd system gyfan** tuag at fodloni anghenion.

## Methodoleg

Mae'r fethodoleg er mwyn deall yr angen a llywio gwaith cynllunio yn y dyfodol yn casglu data ansoddol a meintiol. Mae'r data meintiol yn cynnwys setiau data ar lefel y boblogaeth a data lleol sy'n cyfleu'r galw presennol am y gwasanaeth a'r gweithlu i fodloni'r angen. Mae'r data ansoddol yn canolbwyntio ar y modd mae'r gweithlu'n cael ei ddefnyddio ar sail fframwaith canlyniadau The Balanced System® i fapio'r cymorth yng nghyd-destun gweithio'n lleol. Y nod yw casglu cyfraniadau'r ddarpariaeth therapi iaith a lleferydd yn ogystal â chymorth y system ehangach ar draws Iechyd ac Addysg. Yn olaf, mae unrhyw dystiolaeth o effaith yn cael ei mapio ochr yn ochr â'r ddarpariaeth.

Cyfnod Deall The Balanced System®




Canlyniad y prosiect hwn fydd adroddiad sy'n rhoi trosolwg o'r dadansoddiad a'r themâu allweddol i'w hystyried gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chynllunio ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan anghenion.

---

[1] Gallwch ddysgu mwy drwy ymweld â [gwefan The Balanced System](https://www.thebalancedsystem.org/what-is-it/) (https://www.thebalancedsystem.org/what-is-it/) neu ewch i Gascoigne, M.T. (2025) https://www.taylorfrancis.com/chapters/edit/10.4324/9781003671626-4/whole-system-approach-meeting-speech-language-communication-needs-marie-gascoigne?context=ubx

© Better Communication CIC, 2026